COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI 097

Amseru: Arferol

Teitl: Gwobrwyo Cytundeb ar Gyfer Asesiad o Anghenion Gwasanaethau a Gomisiynir

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid

Crynodeb Gweithredol:
Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) Dyfed-Powys yn nodi ei flaenoriaethau ar gyfer y cyfnod 2017-2021 yn ei Gynllun Heddlu a Throseddu ac yn rhoi manylion am sut y bydd yn comisiynu gwasanaethau ar gyfer cefnogi pobl o gymunedau Dyfed a Phowys. Er mwyn ei alluogi i gyflawni'r blaenoriaethau o fewn y cynllun hwn, mae gan y CHTh gyfrifoldebau statudol i gomisiynu gwasanaethau ar gyfer helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel a chefnogi dioddefwyr a phobl eraill sy'n agored i niwed.

Ar hyn o bryd, mae'r CHTh yn comisiynu gwasanaethau amrywiol ar draws llu o ddarparwyr gwasanaeth, gan gynnig gwasanaethau i ddioddefwyr trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, unigolion sy'n dioddef problemau cam-drin alcohol a sylweddau, dioddefwyr cam-drin domestig a dioddefwyr cam-drin rhywiol, yn ogystal â chynnig gwasanaethau Cyflawnder Adferol a gwasanaeth ôl-drafod ar gyfer plant a phobl ifainc yr adroddwyd eu bod ar goll. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnig cymorth hollbwysig i bobl sy'n agored i niwed, fodd bynnag, o ystyried tirwedd gwelthgarwch troseddol sy'n gyson newid a chymhlethdod newidiol anghenion dioddefwyr, mae angen deall anghenion ein cymunedau'n llawn er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn bodloni'r galw cyfredol.

Er mwyn sicrhau ein bod ni'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau yn ardal Dyfed-Powys ac yn comisiynu ac yn targedu gwasanaethau'n effeithiol yn seiliedig ar angen, mae'r CHTh wedi dewis comisiynu asesiad cynhwysfawr o angen o fewn ardal Dyfed-Powys. Bwriedir ei ddefnyddio fel y sail dystiolaeth ar gyfer ffurfweddu gwasanaethau, comisiynu a threfniadau partner yn y dyfodol. Hefyd, bydd yn edrych i weld ble mae croesi posibl yn digwydd gyda mentrau a ariennir gan bartneriaid neu'r llywodraeth er mwyn caniatáu i'r CHTh gomisiynu gwasanaethau i gynnig y canlyniadau gorau posibl heb ddyblygu ymdrechion.

Argymhelliad: Bod y CHTh yn cytuno i roi'r cytundeb ar gyfer y darn o waith uchod i George Partnerships Cyf, yn unol â'r broses ddyfynbris ddiweddar.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 10/1/2019